# Atebion i Gwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 12 Mawrth 2010

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

2 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau*

**Nerys Evans (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Sut mae modd gweithredu strategaeth addysg Gymraeg gyda'r newidiadau i'r dangosyddion statudol ym maes addysg Gymraeg yng Ngorchymyn Llywodraeth Lleol (Dangosyddion Perfformiad a Safonau Perfformiad) 2010. (WAQ55746) W

***Rhoddwyd ateb ar 12 Mawrth 2010***

Er mwyn monitro hynt y gwaith o weithredu'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gosod nifer o dargedau ar gyfer canlyniadau sy'n allweddol i lwyddiant y strategaeth. Mae'r data rydym ei angen i fonitro'r targedau hyn eisoes yn dod i law drwy ein casgliadau rheolaidd o ystadegau, a bydd yn parhau i fod felly. Ni fydd y newidiadau i ddangosyddion statudol ym maes addysg cyfrwng Cymraeg yn cael effaith ar y gwaith o gasglu data at ddibenion monitro'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth*

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd):** Ar gyfer pob proses tendro, gan gynnwys y diweddaraf, yn ymwneud â'r gwasanaeth hedfan rhwng Caerdydd ac Ynys Môn, sawl cynnig a gafodd Llywodraeth Cynulliad Cymru a faint o'r rhain y pennwyd nad oeddent wedi diwallu'r meini prawf a oedd yn y tendr. (WAQ55745)

***Rhoddwyd ateb ar 22 Mawrth 2010***

Roedd y tri chynnig a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod tendro cychwynnol ar gyfer y gwasanaeth awyr yn ystod 2006-07 yn cyflawni gofynion y tendr.  Dim ond un cynnig a dderbyniwyd yn ystod yr ymarfer tendro diweddar, ac nid oedd hwnnw'n cydymffurfio â gofynion y tendr.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei chynigion i roi'r gorau i gasglu a chyhoeddi gwybodaeth am amseroedd aros y GIG ar gyfer apwyntiadau cleifion allanol a derbyn cleifion mewnol. (WAQ55744)

***Rhoddwyd ateb ar 16 Mawrth 2010***

Ar hyn o bryd mae'r Prif Ystadegydd yn ymgynghori â defnyddwyr ar gynigion i roi'r gorau i gasglu a chyhoeddi gwybodaeth am amseroedd aros y GIG ar gyfer apwyntiadau cleifion allanol a nifer y cleifion mewnol a dderbynnir.  Caiff y rhesymau ar gyfer yr ymgynghoriad hwn eu nodi'n glir yn y papur ymgynghori sydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru yn www.wales.gov.uk/consultations/statistics/nhswaitingtimes .

Mae'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Prif Ystadegydd gydbwyso nifer o ystyriaethau.  Mae'r rhain yn cynnwys anghenion defnyddwyr presennol yr ystadegau, y baich ar gyflenwyr data a'r buddiannau sy'n deillio o ddefnyddio'r ystadegau.  Diben yr ymgynghoriad yw cael barn amrywiaeth eang o ddefnyddwyr.

Mae disgwyl i'r ymgynghoriad ddod i ben ar 16 Ebrill.  Ar ôl y dyddiad hwn, caiff yr ymatebion eu hasesu a bydd y Prif Ystadegydd yn gwneud penderfyniad ar ba un a gaiff y cyhoeddiad ei atal ai peidio.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol*

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i sicrhau bod busnesau'n ymwybodol o'r rhyddhad mae ganddynt hawl iddo. (WAQ55739)

***Rhoddwyd ateb ar 25 Mawrth 2010***

Mae pob talwr ardrethi yn cael ei hysbysu o'r trothwyon rhyddhad gyda'i filiau ardrethi, ac mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cyhoeddi manylion y rhyddhad sydd ar gael ar ei gwefan.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa ystyriaeth y mae'r Gweinidog wedi'i rhoi i'r achos dros ddefnyddio rhyddhad ardrethi busnes yn awtomatig. (WAQ55740)

***Rhoddwyd ateb ar 25 Mawrth 2010***

Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am bennu cymhwysedd safleoedd busnes i gael rhyddhad, a phan eu bod yn gallu gwneud hynny, maent yn rhoi'r rhyddhad hwnnw yn awtomatig.
Caiff rhyddhad y rhan fwyaf o'r busnesau sy'n dod o dan y trothwyon rhyddhad 25% neu 50% cyffredinol ei gyfrif yn awtomatig yn eu biliau ardrethi blynyddol.

Mae'n ofynnol i dalwyr ardrethi ddarparu cadarnhad ysgrifenedig eu bod yn bodloni'r meini prawf penodol ar gyfer rhyddhad adwerthu, gofal plant ac undebau credyd, ond dim ond unwaith y mae'r rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i ddangos y fath wybodaeth dros gyfnod pedair blynedd yr agwedd hon ar y cynllun.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint o fusnesau sydd wedi manteisio ar eu hawl am ryddhad ardrethi er mis Ebrill 2005 a beth yw'r ffigurau fel % o'r holl fusnesau sydd â hawl i gael (a) rhyddhad ardrethi 50% cyffredinol, (b) rhyddhad ardrethi 25% cyffredinol, (c) rhyddhad ardrethi 25% adwerthu, a (d) rhyddhad eiddo gwag.  (WAQ55741)

***Rhoddwyd ateb ar 25 Mawrth 2010***

Mae'r amcangyfrifon hyn yn seiliedig ar adenillion a ddarparwyd gan awdurdodau lleol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2008-2009.  Nid oes ffigurau ar gael ar gyfer blynyddoedd blaenorol.
a) Cafodd dros 16,500 o fusnesau ryddhad ardrethi 50%, (b) cafodd dros 28,800 ryddhad ardrethi cyffredinol 25%, (c) cafodd dros 1,500 rhyddhad ardrethi adwerthu 25%, a (ch) chafodd dros 15,000 ryddhad eiddo gwag.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint o fusnesau fydd yn gymwys ar gyfer y rhyddhad ardrethi canlynol ar ôl ailbrisio ardrethi annomestig ym mis Ebrill 2010 (a) rhyddhad ardrethi 50% cyffredinol, (b) rhyddhad ardrethi 25% cyffredinol, (c) rhyddhad ardrethi 25% adwerthu, a (d) rhyddhad eiddo gwag.  (WAQ55742)

***Rhoddwyd ateb ar 25 Mawrth 2010***

Nid yw'n bosibl rhoi nifer yr eiddo busnes a fydd yn gymwys i gael rhyddhad, gan fod hyn yn dibynnu ar amgylchiadau unigol yr eiddo a'r talwr ardrethi.
Yn seiliedig ar wybodaeth o'r rhestrau ardrethi drafft ar gyfer 2010-2011 a luniwyd gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio, amcangyfrifwn y bydd hyd at 20,000 o eiddo cymwys posibl yn dod o dan y trothwyon rhyddhad 50%, bydd 34,400 yn dod o dan y trothwyon rhyddhad cyffredinol 25%, a bydd tua 3,000 yn dod o dan y trothwyon rhyddhad ardrethi adwerthu 25%.

Mae cymhwysedd ar gyfer eiddo gwag yn dibynnu ar werth ardrethol yr eiddo a defnydd yr eiddo - gallai pob eiddo fod yn gymwys ar gyfer rhyddhad eiddo gwag am o leiaf chwe mis, a bydd unrhyw eiddo gwag â gwerth ardrethol o dan £18,000 yn cael ei eithrio rhag talu ardrethi.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint o fusnesau sy'n gymwys ar hyn o bryd i gael (a) rhyddhad ardrethi 50% cyffredinol, (b) rhyddhad ardrethi 25% cyffredinol, (c) rhyddhad ardrethi 25% adwerthu, a (d) rhyddhad eiddo gwag. (WAQ55743)

***Rhoddwyd ateb ar 25 Mawrth 2010***

Nid yw'n bosibl rhoi nifer yr eiddo busnes sy'n gymwys i gael rhyddhad, gan fod hyn yn dibynnu ar amgylchiadau unigol yr eiddo a'r talwr ardrethi.
Yn seiliedig ar wybodaeth o'r rhestrau ardrethi drafft ar gyfer 2005 a luniwyd gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio, amcangyfrifwn y bydd hyd at 19,000 o eiddo cymwys posibl yn dod o dan y trothwyon rhyddhad 50%, bydd 35,000 yn dod o dan y trothwyon rhyddhad cyffredinol 25%, a bydd 3,100 yn dod o dan y trothwyon rhyddhad ardrethi adwerthu 25%.
Mae cymhwysedd ar gyfer eiddo gwag yn dibynnu ar werth ardrethol yr eiddo a defnydd yr eiddo - gallai pob eiddo fod yn gymwys ar gyfer rhyddhad eiddo gwag am o leiaf chwe mis, ac mae unrhyw eiddo gwag â gwerth ardrethol o dan £15,000 yn cael ei eithrio rhag talu ardrethi.

**Nerys Evans (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa ymgynghoriad sydd wedi bod ynghylch y newidiadau i'r dangosyddion statudol ym maes addysg Gymraeg yng Ngorchymyn Llywodraeth Lleol (Dangosyddion Perfformiad a Safonau Perfformiad) 2010. (WAQ55747) W

***Rhoddwyd ateb ar 12 Mawrth 2010***

Cynhaliwyd ymarfer ymgynghori cyhoeddus ar holl ddangosyddion perfformiad statudol llywodraeth leol rhwng mis Tachwedd 2009 a mis Ionawr 2010. Cafwyd dros 40 o ymatebion, ac nid oedd yr un yn gwrthwynebu ein cynigion ar addysg cyfrwng Cymraeg.

**Nerys Evans (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Beth yw'r newidiadau i'r dangosyddion statudol ym maes addysg Gymraeg yng Ngorchymyn Llywodraeth Lleol (Dangosyddion Perfformiad a Safonau Perfformiad)2010. (WAQ55748) W

***Rhoddwyd ateb ar 12 Mawrth 2010***

Ni fydd dangosyddion perfformiad statudol llywodraeth leol yn cynnwys canran y plant sydd wedi'u hasesu yn Gymraeg (iaith gyntaf) yn ystod cyfnodau allweddol 2 a 3 o 1 Ebrill 2010. Cesglir a chyhoeddir y data hwn fel rhan o gasgliadau ystadegau rheolaidd Llywodraeth y Cynulliad, a bydd hyn yn parhau. Nid oes angen casglu'r data fel dangosyddion perfformiad ar wahân.